De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

EICH HEDDLU EICH ARIAN

YOUR POLICE YOUR MONEY

# Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd tuag at Dde Cymru Mwy Diogel

De Cymru yw un o'r ardaloedd mwyaf diogel i fyw a gweithio ynddi yn y DU ond gwna'r pwysau dwys ar blismona a gwasanaethau eraill hi'n ofynnol i ystyried yn ofalus iawn pa lefel o dreth gyngor sy'n angenrheidiol er mwyn cynorthwyo ein cymunedau a mynd i'r afael â bygythiadau trosedd sy'n dod i'r amlwg.

Mae Cynllun yr Heddlu a Throseddu 2023-27 y Comisiynydd, sydd yn y broses o gael ei ddiwygio, yn ymwneud â diogelu ein pobl, yn enwedig pobl agored i niwed, a gweithio hyd yn oed yn agosach gyda chymunedau lleol. Cafodd y cynllun ei lunio drwy gydweithio'n agos â'r Prif Gwnstabl ac mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer plismona yn Ne Cymru. Mae'n parhau i ddarparu pwyslais clir ar ymyrryd yn gynnar a chymryd camau prydlon a chadarnhaol. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd Heddlu De Cymru yn ymateb i fygythiadau cynyddol, fel trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, troseddau wedi'u galluogi gan y rhyngrwyd, camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio ar y rheini sydd fwyaf agored i niwed.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i recriwtio 20,000 o Swyddogion yr Heddlu newydd, ond ni fydd hyn yn gwneud iawn am y niferoedd a gollwyd dros y deng mlynedd diwethaf.

Heblaw am y cyllid ar gyfer swyddogion newydd, roedd Grant yr Heddlu ar gyfer 2023/24 yn setliad arian gwastad arall, heb ystyried chwyddiant na chostau eraill, a fydd yn gadael bwlch cyllido o £20.8 miliwn yn achos Heddlu De Cymru yn 2023/24. Mae'r grant cyfalaf bellach wedi dirwyn i ben yn llwyr. Roeddem yn arfer cael £3 miliwn y flwyddyn fel grant cyfalaf, ond mae'r gostyngiad olynol yn y grant hwn yn golygu bod yn rhaid cyllido'r holl wariant cyfalaf gan ddefnyddio cyllid refeniw mewnol yn llwyr. Rydym hefyd yn cael £2m y flwyddyn yn llai mewn perthynas â'r Ardoll Prentisiaethau a chostau hyfforddi cysylltiedig, o gymharu â heddluoedd yn Lloegr. O ystyried y setliad arian grant gwastad, mae'n rhaid i'r praesept gwmpasu'r bwlch hwn, ar ben y £62 miliwn o arbedion cyfunol y llwyddwyd i'w cyflawni ers 2010.

Y canlyniad yw cynnydd ym Mhraesept yr Heddlu – ond bydd cartrefi yn Ne Cymru yn parhau i dalu rhai o'r costau plismona isaf yng Nghymru, gyda chynnydd o £22.36 y flwyddyn (£1.86 y mis) ar gyfer eiddo Band D. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn talu llawer llai. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi pennu'r dreth gyngor ar £324.47 ar gyfer eiddo Band D, gan gyfrannu £163.8 miliwn at y gyllideb o £359m ar gyfer gwasanaeth heddlu 24 awr, saith diwrnod yr wythnos.

Er gwaethaf yr heriau ariannol, rydym wedi gwella perfformiad yn gyson wrth i ni weithio tuag at sicrhau mai ni yw'r gorau o ran gwrando ar anghenion pob un o'n cymunedau yn Ne Cymru a deall yr anghenion hynny. Mae ein perfformiad wedi cael ei gydnabod yn allanol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi:

> De Cymru sydd fwyaf gweladwy o blith y 43 o gwnstabliaethau ac mae yn y safle cyntaf o ran cyflawni'r canlyniadau cadarnhaol gorau yn y wlad ar gyfer trais gydag anaf ac ar gyfer cymryd camau yn erbyn troseddau rhywiol.

Mae'r holl wybodaeth am y Cynllun a'n Perfformiad ar gael ar ein gwefan: www.southwalescommissioner.org.uk

# Achieving More Together Towards a Safer South Wales

South Wales is one of the safest areas to live and work in the UK but the intense pressure on policing and other services makes it necessary to give very careful consideration to the level of council tax needed to support our communities and address emerging crime threats.

The Commissioner's Police and Crime Plan 2023-27, which is currently being refreshed, is about protecting our people, particularly the vulnerable, and working ever more closely with local communities. The plan was produced in close co-operation with the Chief Constable and sets out the vision for policing in South Wales. It continues to provide a clear emphasis on early intervention and prompt, positive action. The Plan sets out how South Wales Police will respond to growing threats such as violence against women, domestic abuse and sexual violence, internet enabled crime, child sexual exploitation and the exploitation of those who are most vulnerable.

The 20,000 new Police Officers that the Government is committed to is welcome but this won't fully make up the numbers lost over the past ten years.

Apart from funds for the new officers, the Police Grant for 2023/24 was another flat cash settlement with no allowance for inflation or other cost pressures, which will leave a funding gap of £20.8m in South Wales Police's case in 2023/24. The capital grant has now been ceased completely. We used to receive £3m a year as a capital grant, yet the successive reduction of this grant means that all capital expenditure has to be financed entirely by internal revenue funds. We are also disadvantaged to the tune of £2m annually with respect to the Apprenticeship Levy and associated training costs, compared to Forces in England. Given the flat cash grant settlement, the precept has to cover this gap, on top of the £62m cumulative savings successfully delivered since 2010.

The result is an increase in the Police Precept – but households in South Wales will continue to pay among the lowest costs for policing in Wales with an increase of £22.36 a year (£1.86 a month) for Band D properties. Most people will pay much less. The Police and Crime Commissioner for South Wales has set the council tax at £324.47 for a Band D property, contributing £163.8m towards the £359m budget for a 24-hour, seven-days-a-week police service.

Despite the financial challenges, we have consistently improved performance as we work towards being the best at listening to and understanding the needs of all our communities in South Wales. Our performance has been externally recognized by HM Inspectorate of Constabulary:

> South Wales has the best visibility across 43 constabularies, whilst it is ranked 1st in the country for positive outcome rates for violence with injury and 1st for taking action on sexual offences.

Full details of the Plan and Performance can be found on our website: www.southwalescommissioner.org.uk

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

## BETH Y BYDDWCH YN EI DALU BOB BLWYDDYN: / WHAT YOU WILL PAY PER YEAR:

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band A:** | £216.31 | **Band C:** | £288.42 | **Band E:** | £396.57 | **Band G:** | £540.78 | **Band I:** | £757.10 |
| **Band B:** | £252.37 | **Band D:** | £324.47 | **Band F:** | £468.68 | **Band H:** | £648.94 | | |

| CYLLIDEB REFENIW | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 | REVENUE BUDGET |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant Gros | 409,923 | 433,166 | Total Gross Expenditure |
| Incwm | -14,863 | -17,327 | Income |
| Grantiau Eraill | -48,692 | -57,140 | Other Grants |
| Defnyddio Cronfeydd | 0 | 0 | Use of Reserves |
| **Gofyniad y Gyllideb** | **346,368** | **358,699** | **Budget Requirement** |
| Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref) | -131,918 | -132,370 | Police Grant (Home Office) |
| Grant Cymorth Refeniw (Llywodraeth Cymru) | -61,871 | -62,575 | Revenue Support Grant (Welsh Government) |
| Cyfraddau Annomestig (Llywodraeth Cymru) | -480 | 0 | Non-Domestic Rates (Welsh Government) |
| **Praesept y Dreth Gyngor** | **-152,099** | **-163,754** | **Council Tax Precept** |
| **Y Dreth Gyngor ar Eiddo Band D** | **£302.11** | **£324.47** | **Council Tax Band D property** |
| **Asesiad Cyfanswm Gwariant Sefydlog gan y Llywodraeth ar gyfer y Corff Plismona Lleol** | **249,744** | **252,804** | **Total Standing Spending Assessment by Government for the Local Policing Body** |

Cyllideb y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022-23 yw £35.5m. Caiff hyn ei ariannu'n bennaf drwy gyfraniad refeniw, cronfeydd cyfalaf wrth gefn a benthyca mewnol.

### Cysylltu â'r Comisiynydd

**Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gynrychioli'r gymuned a gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol yn Ne Cymru.**

Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd mewn sawl ffordd:

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
Ffôn: 01656 869366
E-bost: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
Gwefan: www.southwalescommissioner.walesTwitter: @commissionersw

### Cysylltu â Heddlu De Cymru

Mewn argyfwng, ffoniwch 999 bob amser. Os nad yw'n argyfwng, ffoniwch 101. Gall pobl â nam ar eu clyw neu nam iaith gysylltu â ni drwy ein system minicom ar 01656 656980.

Pencadlys Heddlu De Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU E-bost:headquarters@south-wales.pnn.police.uk
Gwefan: www.south-wales.police.uk
Twitter: @HeddluDeCymru

### Unrhyw gwestiynau?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ariannol ynglŷn â'r wybodaeth ar y daflen hon, ffoniwch 01656 869299.

The Capital Programme budget for 2022-23 is £35.5m. This will be mainly funded through revenue contribution, capital reserves and internal borrowing.

### Contact the Commissioner

**The Commissioner is responsible for representing the community, and working with the Chief Constable to deliver an effective police service in South Wales.**

You can contact the Commissioner in a number of ways:

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters, Bridgend, CF31 3SU
Phone: 01656 869366
Email: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
Website: www.southwalescommissioner.wales Twitter: @commissionersw

### Contact South Wales Police

In an emergency, always call 999. If it is not an emergency, please dial 101. Those with hearing or speech impairment can contact us via our minicom system on 01656 656980.

South Wales Police Headquarters, Bridgend, CF31 3SU
Email: headquarters@south-wales.pnn.police.uk
Website: www.south-wales.police.uk
Twitter: @swpolice

### Any questions?

If you have any financial questions about the information in this leaflet, please contact 01656 869299.